COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 7 MAWRTH 2022 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Linda Williams (yn y gadair),Alan Lewis,Tyssul Evans,Ian Evans,Caroline Williams,,Meic Bowen, a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones,Geraint Rosser,Margaret Rees,Tracey James,Aled Williams a Geoff Hewitt.

2762 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

2763 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 07/02/2022 fel rhai cywir.

2764 Materion yn codi.
Tud 1. Cofnod Rhif 2748 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc. Mae hwn yn nwylo Adran Gorfodi Rheolau Cynllunio'r Cyngor Sir fel mater o frys.
Tud 1. Cofnod Rhif 2748 - Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.
Tud 1. Cofnod Rhif 2748 - Llwybr Treftadaeth – Arhoswn am ymateb oddiwrth Phil Wait.
Tud 1. Cofnod Rhif 2748 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2748 - Meddygfa'r Sarn,Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Feddygfa.
Tud 1. Cofnod Rhif 2748 – Cysgodfa Bys – Tir Dafydd,Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2748 – Rhodfa Ceffylau – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2765 Eisteddfod Llangollen - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

2766 Eglwys Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2767 Neuadd Llangyndeyrn– Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

Cynghorwr Meic Bowen yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2768 Côr Merched Glannau'r Gwendraeth - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.00.

Meic yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2769 Neuadd Pontiets – Coeden Nadolig – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

2770 Seindorf Arian Crwbin - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2771 Pontiets RFC - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £950.

2772 Meinciau Sports Hall - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

2773 Meinciau Sports Hall - Safle Ail-gylchu - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

2774 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn - Llythyr yn diolch am y rhodd tuag at Yswiriant y Parc.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2775 C.Hoyt - Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am adroddiad pellach oddiwrth y Cyngor Sir.

2776 Un Llais Cymru - Aelodaeth 2022-2023 - Awdurdodwyd y Clerc i Dalu'r gyfran o £643.

Ceisiadau Cynllunio

2777

Dim Ceisiadau

.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2778 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2779 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Chwefror..Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

2780 Parc Pontiets –
a) Cafwyd adroddiad gan y Clerc ein bod wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn nawdd ariannol gan y Loteri Genedlaethol tuag at y Ffens.
b) Penderfynwyd cael prisiau am osod Tarmac wrth gatiau newydd y Parc.
c) Mae'r Cadeirydd presennol am osod a thalu am Fwrdd Picnic yn y Parc.
ch) Penderfynwyd gofyn i Reolwr y Co-op am ganiatâd i lanhau'r Wal sy'n gyferbyn a'r Parc ac ein bod fel Cyngor yn cyfrannu hyd at £100 tuag at yr offer glanhau.
d) Cysylltu â Dyfed Alarms ynglyn a gosod CCTV yn y Parc.

2781 Is-bwyllgor Cyllid - 08/03/22 - Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd bod yr Is-bwyllgor yn argymell codi Cyflog y Clerc i Radd 26 o Fedi 2022.

2782 Meddygfa'r Sarn – Derbyniwyd cwyn yn erbyn y Feddygfa. Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach.

2783 Diffibriliwr - Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod y cais a ddanfonwyd at Achub Bywyd Cymru am 5 Ddiffbriliwr wedi bod yn llwyddiannus. Penderfynwyd ein bod yn archebu bocsys priodol iddynt ar gost o £2748.00 a'u gosod yn y mannau canlynol -
a) Capel Salem,Pedair Heol
b) Capel Moreia Meinciau
c) Capel Ebeneser Crwbin
ch) Y Lodge Pontantwn
d) Felin y Glyn Pontnewydd

Cyfarfod nesaf:- 4ydd Ebrill 2022 – Neuadd Pontiets

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……